Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

**Popular Music Competition**

**Level 2/3 Brief**

## Entry Requirements

This competition is aimed at learners who are part of a band. They will be working towards or have achieved a Level 2 or 3 musical qualification (or equivalent). Please note:

- a maximum of one group may enter per organisation.
- all band members must be enrolled with the FE organisation.
- this is a Skills Competition Wales event. There is no opportunity to progress to the UK Skills Show in Birmingham.

## Competition Outline

You will have 20 minutes stage time, so please ensure your set is a maximum of 15 minutes. Points will be deducted for going over the time allocated. The band line up must consist of two or more members. There is no limit on band size however the competition host will contribute a financial sum for accommodation to a maximum of 7 competitors. Consideration must also be given to set-up and stage times.

Competitors are required to select, rehearse and perform a short set of three songs. The songs can be cover versions, original compositions, or a combination of both. We hope to stream the event live as much as possible through the Facebook page www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol/. Only original content will be broadcast during the event or included on the page after the event. It is important to note that this is not a song writing competition therefore any original compositions will be marked on exactly the same criteria as the cover songs (please see below). **No additional marks will be awarded for composing.**

Your first song will provide an opportunity for a sound check. You will be judged on your best two songs.

It is important to select or compose songs that enable you to fully achieve the specific grading criteria set as seen overleaf.

You may perform the songs in the style of your choosing but please be aware you are performing at a live public venue. Any inappropriate behaviour and/ or offensive language will need to be edited from the performance. It is the responsibility of staff to ensure that students adhere to this ruling.

A **Technical Specification** sheet will be sent out to the colleges after registration. It is vital that this is completed in advance of the competition to facilitate each band's technical requirements and smooth running of the day. There will also be an additional form sent out prior to the event asking for track listings for PRS purposes. This will also be an opportunity for bands to give information about themselves as well as make clear to the judges what they are trying to do in terms of Market (Aspect ID E).

## Marking and Assessment

The songs will be performed live in front of a panel of judges. The judges will assess each performance against the criteria outlined below:

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| Aspect ID | Description | Max Mark |
|---|---|---|
| **A** | Musicality & Technical Accuracy<br>e.g. ability to reproduce accurate rhythm and pitch, techniques consistent with style and content with regards to genre, timing, tone, intonation, phrasing, articulation, expression, tightness, beginnings and endings | **10** |
| **B** | Stagecraft and awareness<br>e.g. selection and effective application of appropriate performance aesthetic, choreography (movement), balancing of the stage, blocking of movement, posture, attitude and delivery, setting up, time management | **10** |
| **C** | Ensemble skills<br>e.g. musical interaction, unity as an ensemble (being 'in the pocket'), differing time signatures, stabs, runs, stops, harmonies, instrumental techniques, control of ensemble and individual dynamics | **10** |
| **D** | Arrangement and Selection<br>e.g. effective use of ensemble resources, original and inventive arrangements, use of unusual time signatures or syncopation, extended or alternate harmony, balance and appropriate use of dramatic effect, contrasting selection of songs | **10** |
| **E** | Market awareness and originality<br>e.g. selection of appropriate repertoire and contemporary treatment, understanding of arranging for live performance, appropriate visual presentation, original arrangement and performance, original instrumental parts and vocal interpretations. | **10** |
| | | **50** |

The above criteria will have allocated marks per aspect. Below is an indication of the grading benchmarks.

1- Unacceptable work
2 - Very weak work
3 - Weak work
4 - Below basic work
5 - Basic work
6 - Average work
7 - Good / Commendable work
8 - Very good work
9 - Excellent work
10 - Outstanding work

Once marks have been awarded by each of the judges, they will be averaged to obtain the final mark. A panel of independent judges will be selected and is the responsibility of the host organisation. The judges' decisions will be moderated and quality assured by Coleg Menai.

**Core Competencies**

The scope of the competition enables learners to develop and put into practice a variety of skills that are required to be a working musician within the industry.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Europe & Wales: Investing in your future

**Competitors taking part in this competition should be able to:**

- Play an instrument or sing to an advanced level
- Understand the technical operation and maintenance of their instrument and appropriate contemporary sound generation
- Be able to apply genre specific performance and arranging techniques
- Understand and apply appropriate performance aesthetics and stage craft
- Work collaboratively and communicate effectively
- Solve problems and meet challenges using practical and creative skills
- Demonstrate innovation in musical performance and arrangement
- Proactively manage disciplined personal practice

**Conduct for competitors during live competitions:**

- Competitors will perform live, three songs of their choice
- Competitors who arrive late will not receive additional time unless a valid reason is given
- Competitors will start and finish work as instructed by the judges
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the competitors must act according to the instruction of the organiser
- The use of inappropriate and offensive language in songs will need to be edited for the performance
- The panel's decisions will be quality assured by Coleg Menai before the winners are announced.

**Contact Details**

For general enquiries about the competition please contact Paul Edwards:

**Email: paul.edwards@gllm.ac.uk**
**Phone: 01248 370125 ext 3604**

For technical advice about the competition contact Rhodri Owen:

**Email: owen5r@gllm.ac.uk**
**Phone: 01248 370125 ext 3520**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Briff y Gystadleuaeth**

| Teitl a lefel y gystadleuaeth |
|---|
| Cystadleuaeth Cerddoriaeth Boblogaidd Lefel 2/3 |

## Gofynion mynediad

Anelir y gystadleuaeth hon at fyfyrwyr sy'n rhan o fand. Byddan nhw'n gweithio tuag at neu wedi cyflawni cymhwyster cerddoriaeth Lefel 2 neu 3 (neu gyfatebol) Nodwch os gwelwch yn dda:

- gall uchafswm o un grŵp gystadlu cystadlu o bob sefydliad
- rhaid i bob aelod o'r band fod wedi cofrestru gyda sefydliad Addysg Bellach.
- digwyddiad Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yw hon. Nid oes cyfle i symud ymlaen i Sioe Sgiliau'r DU ynn Birmingham.

## Amlinelliad o'r gystadleuaeth

Bydd gennych 20 munud o amser llwyfan, felly sicrhewch mai 15 munud yw uchafswm hyd eich set. Tynnir pwyntiau i ffwrdd am fynd dros yr amser a benodwyd. Rhaid i'r band gynnwys dau neu ragor o aelodau, Nid oes cyfyngiad ar faint y band, ond bydd noddwr y gystadleuaeth yn cyfrannu swm ariannol ar gyfer lety i uchafswm o 7 cystadleuydd. Rhaid ystyried yr amser y mae'n cymryd i osod i fyny a'r amser ar lwyfan.

Mae gofyn i gystadleuwyr ddewis, ymarfer a pherfformio set fer o dair cân. Gall y caneuon fod yn fersiynau 'cover', cyfansoddiadau gwreiddiol neu gyfuniad o'r ddau. Ein gobaith yw llifo'r digwyddiad yn fyw gymaint â phosib drwy'r dudalen www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol <http://www.facebook.com/SgiliauCyfryngauaChreadigol/> Dim ond cynnwys gwreiddiol fydd yn cael ei ddarlledu yn ystod y digwyddiad neu'n cael ei gynnwys ar y dudalen ar ôl y digwyddiad. Mae'n bwysig nodi nad cystadleuaeth ysgrifennu caneuon yw hon, felly bydd unrhyw gyfansoddiadau gwreiddiol yn cael eu marcio ar yr un meini prawf yn union â'r caneuon 'cover'. (gweler isod os gwelwch yn dda). Ni roddir unrhyw farciau ychwanegol am gyfansoddi.

Bydd eich cân gyntaf yn rhoi cyfle i gael prawf sain. Byddwch chi'n cael eich beirniadu ar eich dwy gân orau.

Mae'n bwysig dewis neu gyfansoddi caneuon sy'n eich galluogi i gyflawni'n llwyr y set meini prawf graddio penodol a welir isod.

Gallwch berfformio'r caneuon mewn arddull o'ch dewis, ond byddwch yn ymwybodol, os gwelwch yn dda, eich bod chi'n perfformio'n fyw mewn lleoliad cyhoeddus. Bydd angen golygu unrhyw ymddygiad anaddas a / neu iaith anweddus allan o'r perfformiad. Cyfrifoldeb staff yw sicrhau fod myfyrwyr yn glynu wrth y rheol hon.

Anfonir taflen **Manyleb Dechnegol** i'r colegau ar ôl cofrestru. Mae'n hanfodol fod hon yn cael ei chwblhau cyn y gystadleuaeth i hwyluso gofynion technegol pob band ac i esmwytho trefn y dydd. Anfonir ffurflen ychwanegol allan cyn y digwyddiad, i ofyn am restr draciau i bwrpas PRS. Bydd hyn hefyd yn gyfle i fandiau roi gwybodaeth amdanynt eu hunain yn ogystal ag egluro i'r beirniaid beth y maen nhw'n ceisio'i wneud o ran y Farchnad (Agwedd ID E).



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

## Marcio ac asesu

Bydd y caneuon yn cael eu perfformio'n fyw o flaen panel o feirniaid. Bydd y beirniaid yn asesu pob perfformiad yn erbyn y meini prawf isod:

| ID Maen Prawf | Disgrifiad | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| A | **Cerddoroldeb a Chywirdeb Technegol**<br>e.e. gallu i atgynhyrchu traw a rhythm cywir, technegau sy'n gyson `ag arddull a chynnwys o ran genre, amseru, tôn, cyweirio, brawddegu, ynganu eglur, mynegiant, tyndra, dechreuadau a gorffeniadau. | 10 |
| B | **Crefft llwyfan ac ymwybyddiaeth**<br>e.e. dethol a gweithredu'n effeithiol estheteg perfformio addas, coreograffi (symud), cydbwyso'r llwyfan, blocio'r symud, osgo, agwedd a chyflwyniad, gosod i fyny, rheoli amser. | 10 |
| C | **Sgiliau ensemble**<br>e.e. ryngweithio cerddorol, undod fel ensemble (bod 'yn y boced'), arwyddion amser amrywiol, stabiau, rhediadau, ataliadau, harmonïau, technegau offerynnol rheolaeth dros yr ensemble a deinameg unigol. | 10 |
| D | **Trefniant a Detholiad**<br>e.e. effeithiolrwydd defnyddio adnoddau ensemble, trefniannau gwreiddiol a dyfeisgar, defnyddio arwydd amser anarferol neu drawsacennu, harmoni estynedig neu amgen, cydbwysedd a defnydd addas o effaith dramatig, detholiad gwrthgyferbyniol o ganeuon. | 10 |
| E | **Ymwybyddiaeth o'r farchnad a gwreiddioldeb**<br>e.e. dewis rhaglen addas a thriniaeth gyfoes deall trefnu ar gyfer perfformiad byw, cyflwyno gweledol addas, trefniant a pherfformiad gwreiddiol, rhannau offerynnol a dehongliadau lleisiol gwreiddiol | 10 |
| | | 50 |

Bydd gan y meini prawf uchod farciau dynodedig fesul agwedd. Isod ceir awgrym o'r meincnodau graddio.

1 – Gwaith annerbyniol
2 – Gwaith gwan iawn
3 – Gwaith gwan
4 – Gwaith islaw sylfaenol
5 – Gwaith sylfaenol
6 – Gwaith cyffredin

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

7 – Gwaith da / cymeradwy
8 – Gwaith da iawn
9 – Gwaith ardderchog
10 – Gwaith rhagorol

Unwaith y bydd marciau wedi cael eu dyfarnu gan bob un o'r beirniaid, byddant yn cael eu cyfartaleddu er mwyn cael y marc terfynol. Detholir panel o feirniaid annibynnol a chyfrifoldeb y sefydliad sy'n noddi'r digwyddiad yw hyn. Bydd penderfyniadau'r beirniaid ac ansawdd yn cael ei warantu gan Goleg Menai.

**Cymwyseddau Craidd**

Mae rhychwant y gystadleuaeth yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a rhoi ar waith amrywiaeth o sgiliau sy'n ofynnol er mwyn bod yn gerddor sy'n gweithio yn y diwydiant.

**Dylai cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon fod yn gallu:**

- Chwarae offeryn neu ganu i lefel uwch
- Deall gweithredu technegol a chynnal a chadw'u hofferyn a chynhyrchu sain gyfoes addas
- Gallu cymhwyso technegau perfformio a threfnu genre-benodol
- Deall a chymhwyso estheteg perfformio a chrefft llwyfan addas
- Gweithio ar y cyd a chyfathrebu'n effeithiol
- Datrys problemau a chwrdd â heriau gan ddefnyddio sgiliau ymarferol a chreadigol
- Dangos arloesi mewn perfformiad a threfniannau cerddorol
- Rheoli'n rhagweithiol ymarfer personol disgybledig.

**Ymddygiad cystadleuwyr yn ystod cystadlaethau byw:**

- Bydd cystadleuwyr yn perfformio'n fyw dair cân o'u dewis nhw
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr yn derbyn amser ychwanegol oni bai fod rheswm dilys yn cael ei roi
- Bydd cystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen gwaith yn ôl cyfarwyddyd y beirniaid
- Os bydd ataliad yn yr ynni, offer yn torri neu ddamwain, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu'n unol â chyfarwyddyd y trefnydd
- Bydd angen golygu'r defnydd o iaith anaddas ac atgas ar gyfer y perfformiad
- Bydd penderfyniadau'r panel yn mynd drwy broses gwarantu ansawdd gan Goleg Menai cyn cyhoeddi'r enillwyr.

**Manylion cyswllt**

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â Paul Edwards:

**E-bost: paul.edwards@gllm.ac.uk**

**Ffôn: 01248 370125 est 3604**

I gael cyngor technegol am y gystadleuaeth, cysylltwch â Rhodri Owen

**E-bost owen5r@gllm.ac.uk**
**Ffôn: 01248 370125 est 3520**



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government